

# Ydych chi eisiau arwain un o gwmnïau celfyddydol mwyaf blaenllaw Cymru?

**Disgrifiad swydd**
**Cyfarwyddwr Artistig**

Cwmni Theatr Arad Goch

# Disgrifiad swydd Cyfarwyddwr Artistig

Teitl y swydd: **Cyfarwyddwr Artistig**

Lleoliad: **Canolfan Theatr Arad Goch, Aberystwyth**

Cyflog: **£42,000–£48,000 y flwyddyn Cynllun Pensiwn 6% o'r cyflog gros fel cyfraniad cyflogwr tuag at bensiwn**

Cytundeb:
**Parhaol (yn dilyn cyfnod prawf o 6 mis)**

Dyddiad dechrau: **Mehefin / Gorffennaf 2024**

Oriau gwaith: **37.5 awr yr wythnos**

Nifer o ddiwrnodau o wyliau: **26 diwrnod + Gwyliau Banc (8 diwrnod fel arfer)**

Yn adrodd i: **Y Bwrdd (drwy Gadeirydd y Bwrdd)**

Rheolwr llinell i: **Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Rheolwr Technegol a Swyddog Marchnata.**

Pwrpas cyffredinol y swydd:
**Gosod gweledigaeth artistig y cwmni a darparu arweinyddiaeth artistig;**
**Goruchwylio pob agwedd ar y rhaglen artistig;**
**Gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Busnes i osod cyfeiriad strategol y cwmni a sicrhau ei fod yn gweithredu fel busnes cynaliadwy a llwyddiannus;**
**Gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Busnes i greu ac arwain diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol, yn gydweithredol, yn ddiogel ac yn gefnogol; yn ogystal ag yn feiddgar ac uchelgeisiol yn artistig;**
**Gweithio gyda'r Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Busnes i sicrhau perthynas adeiladol gyda'r staff, gweithwyr llawrydd, rhanddeiliaid a phartneriaid a'r Bwrdd.**







## Y Cefndir

**Sefydlwyd Cwmni Theatr Arad Goch (CTAG) ym 1989. Gyda'n gwaith cynhyrchu a pherfformio a'n gweithgareddau cyfranogol cymunedol rydym yn cyrraedd rhyw 24,000 o blant a phobl ifanc yn flynyddol. Arad Goch yw'r unig gwmni cynhyrchu theatr sefydlog rhwng Caerfyrddin a Bangor, ac un o'r ychydig sefydliadau creadigol sydd yn gweithredu'n gyfan gwbl drwy'r Gymraeg.**



Mae gan y cwmni Fwrdd cryf a gweithgar o ymddiriedolwyr gwirfoddol sy'n cynnwys arbenigeddau o sawl maes a sector. Mae'r Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Busnes hefyd yn aelodau anweithredol o'r Bwrdd ac yn atebol iddo. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob tri mis ac yn amlach pan fo angen. Y Cyfarwyddwr Artistig a'r Cyfarwyddwr Busnes sydd yn cyfarwyddo gwaith y cwmni o ddydd i ddydd.

Mae Arad Goch yn derbyn nawdd gan Gyngor Celfyddydau Cymru (CCC); cadarnhawyd hyn yn ei Adolygiad Buddsoddiad yn 2023.

Mae gan y cwmni Ganolfan yng nghanol tref Aberystwyth. Datblygwyd y Ganolfan gyda buddsoddiad o £3.5miliwn gan CCC ac eraill rhwng 2006 a 2008. Yn 2018-19, buddsoddwyd er mwyn gwneud y Ganolfan yn fwy hygyrch, agored a chroesawgar. Defnyddir y Ganolfan gan Arad Goch ei hun, gan artistiaid theatr eraill i ymarfer a pherfformio, gan aelodau'r gymuned, yn enwedig pobl ifanc, a gan artistiaid gweledol sydd yn arddangos eu gwaith yn yr oriel newydd. Mae'r amrywiaeth yma o ddefnyddwyr yn cyfrannu at ethos y Ganolfan fel cyrchfan creadigol a lle i gyfnewid syniadau a gwaith. Yn ogystal, mae gan y cwmni stordy a gweithdy adeiladu ar ystâd diwydiannol y tu allan i'r dref. Yno cedwir ein setiau theatr, gwisgoedd ac offer technegol.

Mae ein cynlluniau am y blynyddoedd nesaf yn uchelgeisiol. Rydym am ddatblygu ein gweithgareddau gan roi mwy o gyfleoedd creadigol i artistiaid proffesiynol ac aelodau'r gymuned a thrwy hyn byddwn yn cynyddu ac ehangu ein cyrhaeddiad. Fe wneir hyn ar sail ein llwyddiant, profiad ein staff, ein cysylltiadau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol, ein partneriaethau a'r adnoddau gwych sydd gennym wrth law.

**www.aradgoch.cymru**

# Prif Ddyletswyddau'r Swydd



## 1. Gweledigaeth artistig

**Bydd y Cyfarwyddwr Artistig  yn gyfrifol am baratoi ac arwain rhaglenni artistig gytbwys (byr dymor a hir dymor). Bydd y rhaglen yn cael ei datblygu yn dilyn ymgynghori â'r Cyfarwyddwr Busnes, a'i derbyn gan y Bwrdd. Bydd hyn yn cynnwys:**

- Cynllunio a chreu strategaeth artistig a rhaglen weithgarwch uchelgeisiol ac arloesol, gan amlinellu sut bydd y rhaglen yn cael ei ariannu
- Datblygu syniadau artistig ar gyfer cynyrchiadau unigol a phrosiectau penodol
- Trafod syniadau gydag artistiaid llaw-rydd a darpar bartneriaid
- Comisiynu sgriptiau gan awduron
- Cynhyrchu a chyfarwyddo cynyrchiadau ar sail sgriptiau gan eraill



- Goruchwylio cynyrchiadau a gyfarwyddir gan gyfarwyddwyr eraill
- Arwain cynlluniau datblygu a mentora
- Gweithredu cynlluniau artistig y cwmni y tu fewn i'r gyllideb
- Comisiynu gwaith gan artistiaid nad ydynt yn rhan o staff y cwmni
- Sgriptio yn ôl y galw
- Ymgynghori gyda'r Cyfarwyddwr Busnes ar gytundebau cyflogi actorion
- Goruchwylio trefniadau teithiau cymunedol y Cwmni

# Prif Ddyletswyddau'r Swydd

## 2. Rheoli ac Arweinyddiaeth

**Bydd y Cyfarwyddwr yn cydweithio'n effeithiol ac effeithlon gyda'r Cyfarwyddwr Busnes er mwyn cynnal safonau uchel yn y Cwmni sydd yn cynnwys:**

- Creu ac arwain diwylliant sefydliadol sy'n gynhwysol, yn gydweithredol, yn ddiogel ac yn gefnogol; yn ogystal ag yn feiddgar ac uchelgeisiol yn artistig
- Creu a chyfrannu at amgylchedd gwaith diogel i weithwyr y cwmni, gweithwyr llawrydd, plant a phobl ifanc, a'r cyhoedd, sy'n bodloni gofynion Iechyd a Diogelwch ac Amddiffyn Plant
- Monitro'r risgiau i'r cwmni'n gyson a chynllunio'n ofalus er mwyn rheoli risg yn effeithiol
- Hyrwyddo arferion gwaith cynaliadwy a gweithio i leihau effaith gweithrediadau'r cwmni ar yr amgylchedd
- Cydweithio gyda'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu i ddatblygu brand a chyfathrebu'r cwmni mewn ffordd sy'n ymgorffori, yn hyrwyddo ac yn datblygu gwerthoedd ac uchelgeisiau'r Cwmni
- Cydweithio gyda'r Swyddog Cyswllt Ysgolion
- Bod yn llefarydd huawdl dros y cwmni, yn gyhoeddus
- Arwain a rheoli staff (ar y cyd gyda'r Cyfarwyddwr Busnes, gweler Strwythur presennol Arad Goch isod) gan gynnwys
- Penodi staff parhaol, gydag aelodau eraill o'r Bwrdd
- Penodi staff dros dro, gyda'r Cyfarwyddwr Busnes, o fewn y gyllideb
- Gweithredu system asesu a gwerthuso staff
- Trafod cynlluniau'r cwmni gyda'r staff a sicrhau cyfathrebu rheolaidd
- Datblygu cynlluniau a syniadau newydd i'r cwmni
- Sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau dynol, ariannol ac offer y cwmni
- Monitro cyrhaeddiad a llwyddiant y cwmni a gwerthuso ei gynnyrch a'i ardrawiad

# Prif Ddyletswyddau'r Swydd

## 3. Atebolrwydd a Chodi arian

**Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gweithredu fel cyswllt rhwng Arad Goch a'r cyrff cyllido i drafod materion artistig yn ogystal â datblygu ffynonellau cyllid newydd gan gynnwys:**

- Paratoi adroddiadau chwarterol i Gyngor y Celfyddydau ar weithgaredd ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Busnes
- Paratoi, ar y cyd â'r Cyfarwyddwr Busnes, ceisiadau am grantiau a nawdd;
- Adnabod ffynonellau ariannol newydd posibl
- Datblygu a gweithredu partneriaethau â chyrff eraill (gan gynnwys cyrff celfyddydol ac artistig) er mwyn hyrwyddo nod y Cwmni

## 4. Rhyngwladol:

**Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith a nod Arad Goch yn rhyngwladol, gan gynnwys :**

- Datblygu cysylltiadau â chwmnïau tramor
- Ymweld â gwyliau a chynadleddau tramor
- Arwain ar Ŵyl Agor Drysau
- llunio ceisiadau am nawdd ar gyfer gŵyl Agor Drysau
- trafod gyda theatrau a chwmnïau yng Nghymru
- rhaglennu'r ŵyl
- goruchwylio trefniadau'r ŵyl
- Trefnu teithiau tramor y cwmni

# Prif Ddyletswyddau'r Swydd

## 5. Dyletswyddau cyffredinol a gofynion eraill:

**Bydd y Cyfarwyddwr Artistig yn gweithredu yn unol a pholisiau Cwmni Theatr Arad Goch ar bob achlysur.**

Bydd y Cyfarwyddwr Artistig  yn cynrychioli'r Cwmni yng nghyfarfodydd cyrff eraill megis ITC (Independent Theatre Council), TYAUK (Theatre for Young Audiences UK), a Chymdeithas y Celfyddydau Perfformio yng Nghymru (WAPA).

Unrhyw waith arall sy'n berthnasol i waith Arad Goch gan gynnwys cyfrifoldeb am yr adeilad, mynychu hyfforddiant fel bo angen, ac unrhyw ofynion diogelu plant.

Mae'r swydd yn golygu gweithio tu allan i'r oriau gwaith arferol ar adegau, a mynychu digwyddiadau a drefnir gan Arad Goch. Disgwylir i'r Cyfarwyddwr Artistig  fod ar gael gyda'r nos, o bryd i'w gilydd, i ofalu am yr adeilad tan tua 11.00 yr hwyr, pan y'i defnyddir fel man perfformio cyhoeddus.





## Prif Ddyletswyddau'r Swydd

**Byddwn yn ystyried ymgeiswyr sydd yn cwrdd a'r meini prawf isod ac yn medru darparu tystiolaeth berthnasol:**

### Hanfodol

- Gweledigaeth gref ar gyfer datblygiad artistig y cwmni a'r gallu i gyfleu hynny i ystod eang o randdeiliaid
- Dealltwriaeth gynhwysfawr o theatr yng Nghymru
- Profiad o gyfarwyddo cynhyrchiadau theatr yn broffesiynol
- Profiad o arwain a gweithio gyda plant a phobl ifanc
- Sgiliau arwain cryf ac effeithiol gyda'r gallu i ysgogi, ysbrydoli a mentro
- Profiad o ddatblygu gwaith theatr arloesol a phoblogaidd o ansawdd uchel ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol
- Profiad o oruchwylio prosesau datblygu creadigol
- Adnabyddiaeth ddofn o Gymru a'i chymunedau
- Ymrwymiad i hybu'r iaith Gymraeg ac i ddarparu profiadau a chyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg
- Sgiliau cyflwyno a chyfathrebu dwyieithog cryf, yn ogystal a sgiliau cyfrifiadurol da

### Dymunol

- Ymwybyddiaeth o'r Cwricwlwm newydd a'r sector addysg yng Nghymru
- Ymwybyddiaeth o sut mae cwmni teithiol yn gweithredu'n artistig ac yn ymarferol
- Ymwybyddiaeth o bwysigrwydd cynnig cyfleoedd i gymryd rhan ac i ddatblygu sgiliau
- Ymwybyddiaeth o'r cyd-destun cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol y mae'r cwmni, a'r celfyddydau yn gyffredinol, yn gweithredu ynddo
- Dealltwriaeth o waith theatr yn y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol
- Profiad weithio ym maes y celfyddydau gyda plant a phobl ifanc
- Profiad o reoli staff

Iaith y Gweithle

**1**
**Gwrando a Siarad:**
Gallu sgwrsio ac ateb cwestiynau yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**2**
**Darllen a Deall:**
Gallu deall yr holl ddeunydd Cymraeg a Saesneg sy'n ymwneud â'r gwaith.

**3**
**Ysgrifennu:**
Gallu paratoi'r holl ddeunydd sy'n gysylltiedig â'r maes yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**I'w nodi fod dyddiadau cyfweliadau unai yr 28ain neu'r 29ain o Chwefror 2024 ac y dylai'r ymgeisydd fod ar gael i gyfweliad ar y dyddiadau yma.**

**Ionawr 2024**

# Staff, atebolrwydd, cynllunio ac ymgynghori

